

# Ysgolion yr 21ain Ganrif Dogfen Gryno 2018

**YMGYNGHORIAD AR DDARPARU LLEOEDD MEWN YSGOLION  
CYNRADD CYFRWNG SAESNEG YN ARDAL LLANRHYMNI**

10 Medi – 22 Hydref 2018



Gellir cael y Ddogfen Gryno hon mewn Braille  
Nid yw hon yn Ddogfen Ymgynghori.  
Mae'r Ddogfen Ymgynghori ar gael yn:  
[www.caerdydd.gov.uk/ysgolglanyrafon](http://www.caerdydd.gov.uk/ysgolglanyrafon)



# Lleoedd mewn Ysgolion Cynradd Cyfrwng Saesneg yn Ardal Llanrhyddni

Mae Cyngor Caerdydd yn awgrymu newidiadau i leoedd mewn ysgolion cynradd yn Llanrhyddni.

Yn ardal Llanrhyddni mae llawer mwy o leoedd mewn ysgolion cynradd na disgyblion sy'n dymuno mynychu'r ysgolion hynny. Bu hyn yn wir ers nifer o flynyddoedd. Er bod nifer y plant sy'n byw yn Llanrhyddni wedi cynyddu, mae llawer mwy o leoedd o hyd nag sydd eu hangen.

Mae'r Cyngor felly'n bwriadu dileu rhai o'r lleoedd gwag mewn ysgolion yn Llanrhyddni.

## Beth ydym ni'n bwriadu ei wneud?

- Cau Ysgol Gynradd Glan-yr-afon o 31 Awst 2019

## Sut alla'i ganfod mwy?

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r newidiadau yr ydym yn eu cynnig. Esbonia'r rhesymau dros y cynnig a beth fyddai'n digwydd pe gwnaed penderfyniad i gau.

## Ble alla'i ddod o hyd i fwy o wybodaeth?

Ceir manylion llawn yn Ddogfen Ymgynghori yma:  
[www.caerdydd.gov.uk/ysgolglanyrafon](http://www.caerdydd.gov.uk/ysgolglanyrafon)

Rydym wedi trefnu cyfarfod cyhoeddus a sesiynau galw heibio y gallwch eu mynychu os hoffech i ni esbonio'r newidiadau a awgrymwyd i chi, ac i chi ofyn cwestiynau i ni. Rhestrir y rhain isod:

| Math o ymgynghoriad                         | Dyddiad/Amser                         | Lleoliad                              |
|---|---------------------------------------|---------------------------------------|
| Sesiwn galw heibio i rieni Glan-yr-afon     | I'w drefnu gyda'r ysgol               | Ysgol Glan-yr-afon                    |
| Sesiwn galw heibio i'r holl rieni           | Dydd Mercher 19 Medi 10.00am - 12.00  | Hyb Llanrhyddni, Countisbury Ave      |
| Cyfarfod staff                              | I'w drefnu gyda'r ysgol               | Ysgol Glan-yr-afon                    |
| Cyfarfod llywodraethwyr                     | I'w drefnu gyda'r ysgol               | Ysgol Glan-yr-afon                    |
| Cyfarfod cyhoeddus                          | Dydd Iau, 4 Hydref<br>5.30pm – 7.00pm | Canolfan John Reynolds,<br>Shaw Close |
| Sesiwn galw heibio i rieni Glan-yr-afon     | I'w drefnu gyda'r ysgol               | Ysgol Glan-yr-afon                    |
| Sesiwn cyngor mynediad i rieni Glan-yr-afon | I'w drefnu gyda'r ysgol               | Ysgol Glan-yr-afon                    |

## Sut alla'i roi fy marn?

Gellwch roi eich barn ar [www.caerdydd.gov.uk/ysgolglanyrafon](http://www.caerdydd.gov.uk/ysgolglanyrafon)

Amgaeir ffurflen ymateb i chi roi eich barn hefyd ar dudalennau 7 ac 8.

## Sut mae addysg gynradd yn edrych yn Llanrhymni nawr?

Darperir lleoedd ysgol gynradd yn ardal Llanrhymni mewn sawl ysgol.

- Mae tair ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn Llanrhymni: - Ysgol Gynradd Bryn Hafod, Ysgol Gynradd Glan-yr-afon ac Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn.
- Hefyd gwasanaethir yr ardal gan ddwy ysgol ffydd wirfoddol a gynorthwyr, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg ac Ysgol Gynradd Gatholig Sain Cadog.
- Ceir addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Eirwg ac Ysgol Pen y Pil, sy'n gwasanaethu rhannau o Lanrhymni, Tredelerch, Trowbridge a Phentref Llaneirwg.

O'r 1,342 o leoedd sydd ar gael yn yr ysgolion hyn, mae 1,073 wedi'u llenwi a 269 yn wag.

## A fydd y nifer o ddisgyblion yn Llanrhymni yn cynyddu?

Ni ddisgwylir twf mawr yn nifer y disgyblion yn yr ardal o'r boblogaeth leol gyfredol.

Mae nifer o safleoedd tai newydd yn cael eu hadeiladu yn Llanrhymni. Fodd bynnag, byddai'r cyfanswm cynnydd mewn disgyblion o'r safleoedd hysbys yn llai na phedwar ym mhob grŵp blwyddyn. Ni ddisgwylir i hyn gael llawer o effaith ar nifer y disgyblion sydd angen lleoedd mewn ysgolion cynradd yn Llanrhymni

## Pam ydym ni'n bwriadu cau Glan-yr-afon ac nid yr ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg eraill?

Nod y newid arfaethedig yw lleihau nifer y lleoedd cyfrwng Saesneg sydd heb eu llenwi yn ardal Llanrhymni. Mae nifer o resymau pam yr argymhellwyd cau Ysgol Gynradd Glan-yr-afon fel y ffordd orau o gyflawni hyn.

Mae nifer y teuluoedd sy'n dewis cymryd lle yn Ysgol Gynradd Glan-yr-afon yn isel ym mhob grŵp blwyddyn. Gofynna'r mwyafrif o'r teuluoedd sy'n byw yn y dalgylch am leoedd mewn ysgolion eraill. Bu hyn yn digwydd ers nifer o flynyddoedd.

Roedd 151 o ddisgyblion yn yr ysgol yn ystod tymor y gwanwyn 2018 (Derbyn - Blwyddyn 6). Roedd 141 o leoedd gwag yn yr ysgol, gyda bron i hanner (48%) y lleoedd yn wag.

Mae llawer o'r cyllid a gaiff ysgolion yn seiliedig ar nifer y disgyblion ar eu cofrestr. Golyga'r nifer isel o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Glan-yr-afon bod yr ysgol yn cael llai o arian i ddarparu addysg nag ysgol gyda mwy o ddisgyblion, ac na allant dalu am faterion annisgwyl fel problemau gyda chyflwr yr adeilad.

Mae gan yr ysgol gyllideb ddiffyg o £130,000 ar gyfer 2018/19. Golyga hyn bod yr ysgol yn bwriadu gwario £130,000 yn fwy nag sydd ganddi. Mae ysgolion bychain yn ei chael hi'n anodd iawn adfer o sefyllfa ddiffyg o'r maint hwn.

Mae'n annhebygol y bydd nifer y disgyblion yn yr ysgol yn cynyddu'n fawr oherwydd bod lleoedd gwag o hyd mewn ysgolion eraill yn ardal Llanrhymni.

## Cyflwr ac Addasrwydd

Mae adeilad Ysgol Gynradd Glan-yr-afon mewn cyflwr gwael. Hefyd aseswyd addasrwydd yr adeilad yn wael. Gyda nifer isel o ddisgyblion, mae'n debygol y bydd yr ysgol yn parhau i gael problemau ariannol ac y bydd yn ei chael hi'n anodd rheoli materion adeiladu ysgolion.

## Trefniadau Derbyn a throsglwyddo disgyblion Glan-yr-afon

Os yw Ysgol Gynradd Glan-yr-afon yn cau, gellid cwrdd â'r galw am leoedd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn yr ardal mewn ffyrdd eraill.

Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig Sain Cadog hefyd yn penderfynu sut i ddefnyddio gofod yn yr ysgol yn y dyfodol. Gallai newid defnydd ystafelloedd presennol Ysgol Gynradd Gatholig Sain Cadog greu mwy o leoedd.

Efallai y byddant yn penderfynu cynyddu nifer y lleoedd ym mhob grŵp blwyddyn o 45 i 60. Mater i'r ysgol yw a ddylid cynyddu lleoedd ysgol ai peidio. Pe baent yn penderfynu cynyddu nifer y lleoedd, byddai'n rhaid iddynt ymgynghori ar hyn gyda rhieni'r ysgol ac eraill.

Pe bai Ysgol Gynradd Glan-yr-afon yn cau ym mis Awst 2019, byddai'n rhaid i'r disgyblion yn yr ysgol drosglwyddo i leoedd mewn ysgolion eraill.

Yn 2017-18, roedd 113 o ddisgyblion wedi cofrestru yn y dosbarthiadau Derbyn - Blwyddyn 4 yn Ysgol Gynradd Glan-yr-afon. Petai Ysgol Gynradd Glan-yr-afon yn cau a bod Ysgol Gynradd Gatholig Sain Cadog hefyd yn cynyddu eu lleoedd, byddai 156 o leoedd gwag ar gael yn yr ysgolion sy'n weddill yn Llanrhymni.

Gallai disgyblion o Ysgol Gynradd Glan-yr-afon symud i ysgolion eraill yn Llanrhymni. Gallent hefyd gael mynediad i leoedd mewn ysgolion y tu allan i'r ardal os yw'n well ganddynt. Mae opsiynau amgen ar gael yn lleol os yw Ysgol Gynradd Sain Cadog yn penderfynu peidio ag ymgynghori ar gynyddu ei lleoedd.

Pe bai Ysgol Gynradd Glan-yr-afon yn cau, byddai Swyddogion Derbyn yn gweithio gyda rhieni i ddarparu manylion am leoedd sydd ar gael a gwybodaeth am ysgolion, fel y gallai teuluoedd wneud penderfyniad gwybodus am drosglwyddiad eu plentyn.

Ceir mwy o wybodaeth am drefniadau derbyn yn llyfryn Mynediad i Ysgolion y Cyngor yn:  
[www.caerdydd.gov.uk/derbyniysgolion](http://www.caerdydd.gov.uk/derbyniysgolion)

### Lleoedd Meithrin

Mae digon o leoedd meithrin mewn ysgolion eraill yn Llanrhymni, ac mae'n bosib cynyddu lleoedd mewn rhai ysgolion os oes angen.

### Sut effeithir ar leoedd ysgolion uwchradd?

Ni fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar leoedd ysgol uwchradd.

### Dosbarth Llesiant a Dechrau'n Deg

Mae cyfleusterau Dechrau'n Deg a Chyfleusterau Dosbarth Llesiant a Dechrau'n Deg yn Ysgol Gynradd Glan-yr-afon. Pe byddai'r ysgol yn cau, byddai'r Cyngor yn gwneud trefniadau i symud y ddarpariaeth Dechrau'n Deg, a byddai'n aros yn yr ardal leol.

Mae'r Dosbarth Llesiant yn gwasanaethu plant o bob cwr o Gaerdydd; mae plant yn mynychu'r dosbarth hwn am uchafswm o 6 mis cyn dychwelyd i'w hysgol arferol. Bwriada'r Cyngor agor mwy o ddosbarthiadau mewn ysgolion eraill.

## Ansawdd a Safonau

Arolygir pob ysgol yng Nghymru gan Estyn i sicrhau eu bod yn darparu addysg o safon dda i'w disgyblion a chefnogir pob plentyn i ddysgu gan staff addysgu a dysgu rhagorol. Lleolir pob ysgol hefyd mewn un o'r pedwar categori cefnogaeth cod-lliw (gwyrdd, melyn, oren a choch) fel rhan o System Gategoreiddio Ysgolion Llywodraeth Cymru. Mae ysgolion Oren a Choch yn destun pryder difrifol ac angen y gefnogaeth fwyaf.

Gweler yn y tabl isod safonau ysgolion yn ardal Llanrhymni. Mae'r tabl hefyd yn dangos asesiad Estyn o ragolygon gwella pob ysgol. Dengys y lliwiau a ddefnyddir y categori diweddaraf gan ddefnyddio system gategoreiddio Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2018.

| Ysgol           | Dyddiad arolygu | Safonau                 | Rhagolygon gwella | Sylwadau                                      |
|-----------------|-----------------|-------------------------|-------------------|---|
| Bryn Hafod      | Tach 2015       | Digonol - angen monitro | Digonol           | Tynnwyd o'i sefyllfa monitro, Mawrth 2017     |
| Glan Yr Afon    | Ion 2015        | Digonol - angen monitro | Da                | Tynnwyd o'i sefyllfa monitro, Gorffennaf 2018 |
| Pen Y Bryn      | Gorff 2018      | Da                      | Da                |   |
| Sain Cadog      | Ion 2017        | Da                      | Da                |   |
| Llaneirwg       | Hyd 2016        | Da                      | Da                |   |
| Ysgol Bro Eirwg | Ion 2016        | Da                      | Da                |   |
| Ysgol Pen Y Pil | Mai 2012        | Da                      | Da                |   |

## Sut effeithir ar gefnogaeth i ddisgyblion Glan-yr-afon?

Byddai pob ysgol yng Nghaerdydd yn parhau i ddarparu cefnogaeth sy'n briodol i anghenion unigol pob disgybl.

Nid oes unrhyw wybodaeth i awgrymu y byddai anghenion unrhyw rai o'r grwpiau isod yn cael eu heffeithio'n negyddol:

- disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- disgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- disgyblion sy'n cael Cinio Ysgol am Ddim
- disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig

## Beth yw manteision y cynnig?

- Cyfatebiad gwell rhwng nifer y disgyblion a lleoedd ysgol yn Llanrhymni.
- Byddai cynnal a chadw un safle ac adeilad ysgol yn llai yn golygu y gellid defnyddio mwy o'r arian ysgolion ar gyfer addysgu a dysgu.
- Cred y Cyngor y byddai'r cynnig yn gwella safonau, neu o leiaf yn cynnal y safonau addysg presennol
- Mwy o gyfleoedd i blant ddysgu gydag eraill o'r un oedran
- Mae gan ysgolion mwy o faint fwy o staff a gallant rannu eu llwyth gwaith yn well
- Gellid buddsoddi'r arian a arbedir mewn adeiladau a chyfleusterau ysgol.

## Beth yw anafteision posibl y cynnig?

- Byddai'r cynnig yn golygu bod rhaid i ddisgyblion Ysgol Gynradd Glan-yr-afon symud i ysgolion eraill. Fodd bynnag, barnwyd bod ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn ysgolion eraill yn yr ardal o safon uwch.
- Byddai'r cynnig yn lleihau nifer y lleoedd ysgol sydd ar gael yn yr ardal. Fodd bynnag, gellid defnyddio mwy o'r cyllid ar gyfer addysgu a dysgu.
- Byddai rhaid i rai disgyblion deithio ymhellach i'r ysgol.

## Risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig

- Pe byddai Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Sain Cadog yn penderfynu peidio â chynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol o 45 i 60 o leoedd, byddai rhaid i'r Cyngor edrych ar newidiadu mewn ysgolion eraill.
- Gallai'r Cyngor ymgynghori ar newidiadau i ddalylchoedd a chapasiti ysgol yn ddiweddarach. Byddai hyn ar draws ardal ehangach gan gynnwys Llanrhymni, Pentref Lloneirwg, Tredelerch a Trowbridge. Byddai hyn yn golygu bod digon o leoedd ym mhob ardal i'r disgyblion fynd i ysgol gyfagos.

## Pam na all y cau gael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod hwy?

Mae'r Cyngor yn credu bod cau graddol yn fwy o risg i'r addysgu a'r dysgu yn yr ysgol na chau'n gyfan gwbl ym mis Awst 2019. Byddai cau'n raddol yn achosi nifer o anawsterau:

- Byddai llai o ddisgyblion yn golygu y byddai'r Corff Llywodraethu yn cael llai o gyllid
- Felly, byddai angen i'r ysgol leihau nifer y staff bob blwyddyn
- Gallai ysgol lai wynebu anawsterau wrth gadw'r staff gorau a denu staff newydd
- Byddai llai o arian yn ei gwneud hi'n anodd gwella'r amgylchedd dysgu

Barnwyd bod addysgu a dysgu mewn ysgolion eraill yn yr ardal o safon well neu debyg ar hyn o bryd.

## Sut effeithir ar staff Glan-yr-afon?

Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Phenathiaid, Llywodraethwyr, undebau ac eraill i gynhyrchu Fframwaith SOP Adnoddau Dynol.

Mae hwn yn cefnogi cyrff llywodraethu a staff sy'n gweithio mewn ysgolion trwy amrywiaeth o strategaethau. Ei nod yw lleihau'r diswyddiadau gorfodol ar draws ysgolion yng Nghaerdydd.

Mabwysiadodd y rhan fwyaf o ysgolion yng Nghaerdydd y polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion. Lle bo'n bosibl, mae'r Cyngor yn anelu at ailddefnyddio staff mewn rolau eraill yn hytrach na bod staff yn gadael eu rôl drwy gyfrwng gwirfoddol neu orfodaeth.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth o'r ymgynghoriad hwn. Wedyn, bydd swyddogion y Cyngor yn adrodd ar hyn i Gabinet y Cyngor.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu parhau gyda'r newidiadau, mae'n rhaid iddo gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'. Datganiad swyddogol yw hwn sy'n dweud y bydd y newidiadau yn mynd yn eu blaenau.

Amlinella'r hysbysiad statudol fanylion y cynigion a gofyn i unrhyw un sydd eisiau gwrthwynebu i wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon at y Cyngor o fewn y dyddiadau a roddir ar yr hysbysiad.

Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynnig, neu efallai y byddant yn cymeradwyo'r cynnig gyda rhai newidiadau (diwygiadau). Byddai'r Cabinet yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud eu penderfyniad.

## Lle alla'i gael mwy o wybodaeth?

Gellir canfod manylion llawn y cynnig yn [www.caerdydd.gov.uk/ysgolglanyrafn](http://www.caerdydd.gov.uk/ysgolglanyrafn)

# Dweud Eich dweud!

## Beth sy'n cael ei gynnig?

Mae'r Cyngor yn cynnig cau Ysgol Gynradd Glan yr Afon o 31 Awst 2019

- Does dim digon o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol. Mae 141 o lefydd gweigion yng Nglan yr Afon ar hyn o bryd – bron i hanner y llyfdd
- Mai llai o lefydd yn golygu llai o gyllid i'r ysgol. Mae diffyg yng nghyllideb yr ysgol ar hyn o bryd o £130,000. Mae'n hynod annhebygol y bydd y sefyllfa yn newid.
- Mae angen gwaith atgyweirio mawr ar adeilad yr ysgol ac nid yw'n addas iawn at y diben.
- Mae llyfdd ar gael mewn ysgolion eraill yn yr ardal leol i'r disgyblion sydd yno ar hyn o bryd. Mae ansawdd yr addysg a'r adeiladau yn yr ysgolion hyn o safon uwch neu gyfatebol.

### 1. A ydych yn ymateb fel: Ticiwch bob un perthnasol

- |  |  |
|--|--|
| <input type="checkbox"/> Rhiant i blentyn yng Nglan yr Afon                    | <input type="checkbox"/> Cyflogai Ysgol (Pa ysgol?)    |
| <input type="checkbox"/> Rhiant i blentyn mewn ysgol gynradd arall (pa ysgol?) | <input type="checkbox"/> Disgybl (Pa Ysgol?)           |
| <input type="checkbox"/> Llywodraethwr Ysgol (pa ysgol?)                       | <input type="checkbox"/> Aelod o'r Cyhoedd â diddordeb |

### 2. A ydych yn deall y rhesymau dros y cynnig i gau Ysgol Gynradd Glan yr Afon?

Ydw  Nac ydw

### 3. Pa un o'r canlynol sydd bwysicaf i chi wrth ddewis ysgol gynradd i'ch plentyn/plant? (Ticiwch 3)

- |   |  |
|---|--|
| <input type="checkbox"/> Maint yr ysgol                         | <input type="checkbox"/> Agoswydd i'r cartref                |
| <input type="checkbox"/> Maint dosbarthiadau                    | <input type="checkbox"/> Brodyr/chwiorydd eisoes yn yr ysgol |
| <input type="checkbox"/> Ansawdd adeiladau'r ysgol a'r adnoddau | <input type="checkbox"/> Es i/aelodau o'r teulu i'r ysgol    |
| <input type="checkbox"/> Staff addysgu                          | <input type="checkbox"/> Arall (nodwch)                      |
| <input type="checkbox"/> Cyrhaeddiad addysgol                   |  |
| <input type="checkbox"/> Enw da                                 |  |



## 4. Sawl plentyn sydd gennych mewn ysgol gynradd?

| Meithrin | Dosbarth Derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|----------|-----------------|------------|------------|------------|----------|------------|------------|
|          |                 |            |            |            |          |            |            |

## 5. A ydych yn cytuno â'r cynnig?

Ydw  Ydw, os gellir mynd i'r afael â phryderon penodol  Nac ydw

Beth yw eich pryderon a sut gellir eu hateb?

Rhowch resymau ac awgrymwch ddewisiadau amgen

## 6. Rhowch unrhyw sylwadau neu farn ychwanegol i ni ynghylch y cynnig. Dwedwch wrthym pam eich bod yn teimlo fel hyn

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Cod Post \_\_\_\_\_

Ni fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Dim ond wedi cyhoeddi'r hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiad. Os carech gael eich hysbysu pan gyhoeddir adroddiad yr Ymgynghoriad, rhowch eich cyfeiriad e-bost i ni. Os na rowch gyfeiriad e-bost yn a ni fydd modd i ni roi'r newyddion diweddaraf i chi.

**Diolch i chi am eich sylwadau**

**Dychwelwch y ffurflen hon i Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Yst 422, Neuadd y Sir, CF10 4UW dim hwyrach na 22 Hydref 2018.**

Caiff y wybodaeth a ddarparwyd gennych ei phrosesu gan Gyngor Caerdydd yn unol â'r Ddeddf Diogelu data 2018 a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Caiff y wybodaeth a gaiff ei roi i ni yn ymwneud â'r ymgynghoriad hwn ei thrin yn gyfrinachol ond fe all gael ei defnyddio gan y Cyngor neu ei datgelu i eraill os yw'r gyfraith yn mynnu hynny. Mae'r data personol yn cael ei brosesu er mwyn cyflawni tasg benodol sydd er budd y cyhoedd. Gellir gwneud cais am unrhyw ymateb a ddaw i law drwy'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac efallai y bydd gofyn ei wneud yn gyhoeddus, fodd bynnag byddai unrhyw wybodaeth a fyddai'n datgelu unigolyn megis enw neu gyfeiriad yn cael ei guddio.

Am fwy o wybodaeth ar y modd y mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol, gweler ein Polisi Preifatrwydd llawn ar wefan y Cyngor. <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx>